EOS - YR ASIANTAETH HAWLIAU DARLLEDU CYF.

ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DRYLOYWDER

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31.12.2023

Mae'r adroddiad yma wedi ei baratoi yn unol â gofynion y "Collective Management of Copyright (EU Directive) Regulations 2016".

Strwythyr Cyfreithiol a Rheolieithol
Mae EOS - Yr Asiantaeth Hawliau Darlledu Cyf. (EOS) yn gwmni cyfyngedig trwy warant, sy'n cael ei redeg gan fwrdd o gyfarwyddwyr, sy'n cael eu penodi gan yr aelodau mewn Cyfarfod Cyffredinol. Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfansoddwyr, cyhoeddwyr neu yn aelodau eraill.

Adroddiad ar weithgareddau'r flwyddyn ariannol
Mae'r adroddiadau ariannol am y flwyddyn yn diweddu'r 31 Rhagfyr 2023 yn cynnwys adolygiad o'r gweithgareddau am y flwyddyn ar dudalen 3.

Ceisiadau am drwydded wedi eu gwrthod
Nid oedd unrhyw geisiadau am drwydded wedi eu gwrthod yn ystod 2023.

Aelodaeth o gyrff eraill / is gwmniau
Nid oes gan EOS unrhyw is gwmniau ac nid yw'n aelod o unrhyw gorff arall.

Tâl a buddiannau'r cyfarwyddwyr
Ni thalwyd unrhyw gyflog na buddiannau i'r cyfarwyddwyr am eu gwasanaeth fel cyfarwyddwyr. Mae holl aelodau'r bwrdd yn derbyn treuliau teithio i fynychu cyfarfodydd y bwrdd a chyfarfodydd eraill.

Didyniadau ar gyfer gwasanaethau Cymdeithasol, Diwylliannol ac Addysgol
Yn ystod y flwyddyn talwyd cyfanswm o £4,350 trwy Gronfa Nawdd Eos, a sefydlwyd gan Eos er mwyn dosbarthu grantiau i gefnogi, cynnal a hyrwyddo, creu a pherfformio cerddoriaeth Gymreig a chynyddu gwerthfawrogiad ac addysg y cyhoedd mewn cerddoriaeth newydd.

Incwm Hawliau a Dosbarthiadau
Mae EOS yn casglu incwm ar gyfer 1 math o hawl yn unig sef hawl i ddarlledu.

	2023	
Hawliau Darlledu a gasglwyd	£283,969	100%
Hawliau Darlledu sy'n perthyn i ddeiliaid hawliau	£227,175	80%
Didyniadau o incwm Hawlfraint – Comisiwn	£56,794	20%
Costau rheolaethau a gwasanaethau eraill	£41,958	15%
Hawliau Darlledu a dalwyd allan i'r rhan ddeiliaid	£222,965	
Hawliau Darlledu wedi eu dal yn ôl d/y	£148,783	
Hawliau Darlledu a ddalwyd yn ôl c/y	£152,990	

Mae dadansoddiad o gostau rheoli'r hawliau i'w gweld ar dudalen 12 o'r Adroddiadau Ariannol.

Mae ffioedd trwyddedau yn cael eu casglu yn fisol ymlaen llaw tra bod y dosbarthiadau i'r aelodau yn cael eu gwneud yn chwarterol ar eu hol hi. Fel arfer mae yna fwlch o chwe mis rhwng casglu'r incwm hawliau a'r amser y mae'n cael ei dalu allan, hyn oherwydd yr amser y mae'n cymeryd i brosesu data. Mae hyn yn esbonio pam fod gymaint o incwm hawliau heb ei talu allan. Mae symiau dibwys sy'n ddyledus i aelodau yn cael eu dal yn ôl tan mae'r swm sy'n ddyledus yn fwy na £10.

Cronfeydd wrth gefn
Mae gan y cwmni bolisi i gronni cronfeydd wrth gefn er mwyn talu costau gwrandawiadau tribiwnlys posibl yn y dyfodol. Mae profiad blaenorol wedi dangos y gallai fod yn rhaid i'r cwmni fynd i'r tribiwnlys o bryd i'w gilydd er mwyn cael cytundeb rhesymol gyda thrwyddedigion. Gall gwrandawiadau tribiwnlys gynnwys ffioedd cyfreithiol sylweddol.